

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn ymwneud â Chynnig Gofal Plant Cymru, sef ymrwymiad i ddarparu addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio plant tair a phedair oed yng Nghymru am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, ac fe'i gwnaed ym maniffesto Llafur Cymru, sef ***Gyda'n Gilydd Dros Gymru (2016)***¹. **Fe'i nodir hefyd yn *Symud Cymru Ymlaen***² ac ymhelaethir arno yn *Ffyniant i Bawb*³. Mae'r Cynnig 30 awr hefyd yn rhan o'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*⁴.

Bydd plentyn yn gymwys o'r tymor ar ôl ei drydydd pen-blwydd nes y mis Medi ar ôl ei bedwerydd pen-blwydd, pan fydd fel arfer yn cael cynnig lle amser llawn mewn Meithrinfa Cyfnod Sylfaen.

Mae'r Cynnig yn adeiladu ar yr ymrwymiad cyffredinol i addysg gynnar, sy'n darparu o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg am ddim i blant tair a phedair oed yn ystod y tymor, o'r tymor ar ôl eu drydydd pen-blwydd.

Bydd rhieni sy'n gweithio plant tair a phedair oed sy'n byw yng Nghymru yn gymwys i fanteisio ar elfen gofal plant y Cynnig os bodlonir yr amodau canlynol:

- mae'r ddau riant yn gweithio neu mae'r unig riant yn gweithio mewn teuluoedd un riant;
- mae pob riant yn ennill, ar gyfartaledd, isafswm wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr ar yr isafswm cyflog cymwys, ac nid yw'r incwm gros blyneddol yn uwch na £100,000.

Mae'r cyllid hefyd ar gael mewn amgylchiadau eithriadol eraill, gan gynnwys y canlynol:

- mae un riant yn gyflogedig (ac yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i o leiaf 16 awr yr wythnos o isafswm cyflog perthnasol ar y gyfradd sy'n gymwys iddo) ac mae gan un riant gyfrifoldebau gofalu sylweddol yn seiliedig ar y budd-daliadau penodol a geir am ofalu;
- mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i o leiaf 16 awr yr wythnos o isafswm cyflog perthnasol ar y gyfradd sy'n gymwys iddynt)

1 Maniffesto Llafur Cymru 2016

<http://d3n8a8pro7vhmx.cloudfront.net/themes/56f26ee2ebad64d813000001/attachments/original/1460733418/Welsh-Labour-Manifesto2016.pdf?1460733418>

2 Llywodraeth Cymru – Symud Cymru Ymlaen 2016-2021:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf

3 Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol :

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf>

4 Llywodraeth Cymru – Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi :

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf>

ond mae un rhiant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb rhiant, mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu statudol (oni bai bod y plentyn hwnnw yn dair neu bedair oed);

- mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i o leiaf 16 awr yr wythnos o isafswm cyflog perthnasol ar y gyfradd sy'n gymwys iddynt) ond mae un rhiant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol;
- mae un rhiant yn gyflogedig (ac yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i o leiaf 16 awr yr wythnos o isafswm cyflog perthnasol ar y gyfradd sy'n gymwys iddo) ac mae gan un rhiant anabledd neu mae wedi'i analluogi yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn cael un o'r budd-daliadau cymhwyso canlynol, neu mae ganddo hawl sylfaenol i gael un ohonynt:
 - Budd-dal Analluogrwydd;
 - Lwfans Gofalwyr;
 - Lwfans Anabledd Difrifol;
 - Budd-dal Analluogrwydd Hirdymor;
 - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth; neu
 - Credydau Yswiriant Gwladol ar sail analluogrwydd i weithio neu alluogrwydd cyfyngedig i weithio.
- lle mae rhiant newydd ddod yn hunangyflogedig, ac ar y cam cychwynnol o sefydlu'i fusnes. Bydd angen i rieni gofrestru eu busnes â CThEM a darparu tystiolaeth eu bod yn hunangyflogedig er mwyn bod yn gymwys;
- ar gyfer gofalwyr sy'n berthnasau, lle maent yn bodloni'r diffiniad o riant sy'n gweithio;
- ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a roddir mewn gofal maeth lle mae'r gofalwr maeth yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd ehangach, a lle mae'n unol â chynllun gofal y plentyn. Gall rhieni maeth ddefnyddio eu lwfans gofalwyr maeth i ddangos tystiolaeth o'u henillion.
- er nad yw'n fudd-dal eithrio fel y cyfryw, mewn teuluoedd lle mae un rhiant yn gweithio ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Cynnig ac mae'r llall yn cael taliadau gan y Lluoedd Arfog a wneir i gyn-filwyr sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol (er enghraifft, Taliad Gwarant Incwm), bydd y plentyn hwnnw yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig. Fodd bynnag, ni fydd teuluoedd lle mae un rhiant yn cael budd-dal eithrio ac mae'r rhiant arall yn cael taliad anabledd gan y Lluoedd Arfog yn gymwys.
- mewn teuluoedd lle mae un rhiant yn gweithio ac mae'r llall wedi ymddeol yn gynnar oherwydd salwch, byddant yn parhau i fod yn gymwys os na all y rhiant yr effeithiwyd arno weithio oherwydd cyflwr iechyd a wnaeth ei orfodi i ymddeol a'i fod yn cael un o'r budd-daliadau cymhwyso a restrir uchod, neu mae ganddo hawl sylfaenol i gael un ohonynt. Yn achos teulu un rhiant, ni fyddai'n gymwys mwyach petai'n ymddeol yn gynnar oherwydd salwch. Rhaid bod un aelod o'r cartref yn gweithio er mwyn bod yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig.

A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Mae disgwyl i'r Cynnig gael yr effeithiau cadarnhaol canlynol ar blant:

- Cyflogaeth a threchu tlodi: Dangoswyd mai bod â'r ddau riant yn ennill cyflog (i aelwydydd â dau riant) neu gyflogaeth (i aelwydydd un rhiant) yw'r llwybr gorau allan o dlodi ac mae hynny'n gwneud synnwyr economaidd o ran refeniw treth uwch a llai o wariant ar fudd-daliadau⁵. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar dlodi plant (erthyglau 26 a 27).
- Datblygiad plentyn: Mae addysg a gofal o ansawdd da yn ystod plentynodod cynnar yn rhoi cymorth hanfodol i ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plant yn y tymor byr a'r tymor hwy. Bydd y cynnig hefyd yn rhoi strwythur i blant yn y flwyddyn cyn iddynt ddechrau addysg lawn-amser, gan eu cynorthwyo i fod yn barod ar gyfer yr ysgol (erthyglau 28 a 29).
- Atal: Gwyddom fod ymyrryd yn y blynyddoedd cynnar yn gallu arbed arian yn ddiweddarach, a bod adenillion mwy ar fuddsoddiad cynnar nag sydd ar fuddsoddiad hwyr e.e. mae buddsoddi'n gynnar yn gallu lliniaru rhag deilliannau negyddol costus i bobl yn ddiweddarach yn eu hoes, fel anllythrennedd neu anrhifogrwydd (erthygl 27).
- Cydraddoldeb: Mae'r menywod hynny sydd mewn gwaith yn wynebu gwahaniaethu cynhenid ac echblyg ac mae bwch cyflog sy'n gyson yn fawr yn bodoli ar hyn o bryd. Mae menywod yn cael eu tangynrychioli ar rengoedd uwch ac mewn proffesiynau tra chreffftus. Gellir dadlau y bydd yr anghydraddoldebau hyn yn parhau nes bod rhieni'n gallu taro'r cydbwysedd iawn rhwng eu cyfrifoldebau gwaith a gofalu. Mae'r Cynnig yn agored i'r holl rieni a phlant cymwys, gan gynnwys plant ag anghenion ychwanegol neu blant i rieni a all fod yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo ac nad ydynt yn gallu hawlio cymorth o bwrs y wlad.

Mae'r manteision lefel-uchel canlynol wedi cael eu hadnabod a fyddai o gymorth i wireddu'r deilliannau uchod:

- Lefelau cyflogaeth uwch ymhlith rhieni
- Incwm aelwyd uwch i rieni
- Cyfradd uwch o ran hawlio darpariaeth gofal plant
- Mwy o blant yn dechrau yn yr ysgol gyda'r sgiliau angenrheidiol
- Deilliannau datblygu gwell i blant erbyn eu bod yn cyrraedd oedran ysgol
- Nifer is o aelwydydd yn byw mewn tlodi

Yn ogystal â'r deilliannau cadarnhaol disgwyledig o ganlyniad i gyflwyno'r Cynnig, mae posibilrwydd y ceir rhai effeithiau anffafriol hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Lleihad posibl mewn amser teuluol ar gyfer plant wrth i ofal plant ddod yn fwy fforddiadwy, gan ei gwneud yn haws i rieni weithio. Fodd bynnag, efallai y bydd hefyd yn wir bod rhieni'n gallu treulio mwy o amser gyda'u plant am bod y Cynnig yn rhoi ystod ehangach o ddewisiadau cyflogaeth i'r rhiant/rhieni h.y. gweithio llai o oriau, gweithio llai o swyddi, ymgeisio am ddyrchafiad neu swydd yn nes at adref;

⁵ Sefydliad Joseph Rowntree (2016) UK poverty: Causes, costs and solutions. Adroddiad llawn ar gael yn: <https://www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-causes-costs-and-solutions>

- Gall rhai rhieni ddewis bod eu plentyn yn hawlio'r elfen gofal plant o'r Cynnig, yn hytrach na'r elfen addysg gynnar. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd os yw rhieni'n teimlo nad yw'r elfen Cyfnod Sylfaen Meithrin o'r Cynnig yn hygyrch neu os ydynt am i'w dau blentyn fod yn yr un lleoliad. Mae'r elfen hon o'r Cynnig yn cael ei hadolygu'n gyson;
- Ceir manteision cymdeithasol o ran plant yn treulio amser gyda mam-gu a thad-cu⁶ a cheir risg y bydd hyn yn mynd yn llai pan fydd y Cynnig ar gael a bod gofal plant gan fam-gu a thad-cu yn dod yn fwy o ddewis nag o anghenraid;
- Y risg y bydd plant i rieni nad ydynt mewn gwaith ar eu colled trwy beidio â chael manteision cymdeithasol a datblygiadol posibl mynychu lleoliad gofal plant cofrestredig;
- Y risg bosibl na fydd y sector mewn sefyllfa i adweithio i unrhyw gynnydd posibl yn y galw neu ateb y galw uwch hwnnw.

Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant

Bydd y Cynnig Gofal Plant yn golygu bod gan rieni i blant 3 a 4 oed sy'n gweithio fynediad at 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth am 48 wythnos o'r flwyddyn. Bydd y Cynnig yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant trwy gefnogi'r erthyglau canlynol:

- **Erthygl 3** sy'n datgan y dylai pob sefydliad weithio tuag at yr hyn sydd orau i'r plentyn. Budd pennaf y plentyn sy'n greiddiol i'r Cynnig ac mae hyn yn golygu sicrhau bod gwasanaethau gofal plant sy'n gofalu am blant yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant cofrestredig;
- **Erthygl 18** sy'n datgan y dylai'r Llywodraeth gefnogi rhieni trwy helpu i ofalu am blant, yn enwedig pan fo'r ddau riant yn gweithio. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad statudol i sicrhau bod gofal plant sydd o ansawdd da, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy ar gael ledled Cymru ac mae'n cydweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol i gyflawni hyn. Bydd y Cynnig yn cefnogi rhieni sy'n gweithio trwy ariannu oriau o ofal plant, y gall ei gost fod yn rhwystr a'u hatal rhag dychwelyd i'r gwaith neu wneud newidiadau i'w cyflogaeth i weddu'n well i amgylchiadau eu teulu;
- **Erthygl 19** sy'n datgan bod rhaid i'r Llywodraeth weithredu i ddiogelu plant rhag camdriniaeth gan ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael iddi. Bydd y Cynnig yn cael ei ddarparu trwy leoliadau gofal plant cofrestredig ac felly bydd ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i ddiogelu plant yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru;
- **Erthygl 23** sy'n datgan y dylai partïon sicrhau bod plant anabl yn cael gofal a chymorth arbenigol er mwyn byw bywydau llawn, annibynnol. Bydd y Cynnig yn cynorthwyo plant cymwys y mae arnynt angen cymorth ychwanegol i gael mynediad at y Cynnig. Mae'n ofynnol i leoliadau cofrestredig gydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a sicrhau bod gofynion yr holl blant yn eu gofal yn cael eu hasesu a'u diwallu'n briodol. Dyrennir cyllid ychwanegol fel rhan o'r Cynnig ar ffurf y Grant Cymorth Ychwanegol i sicrhau bod plant cymwys y mae arnynt

⁶ WHEELOCK, J., & JONES, K. (2002). 'Grandparents Are the Next Best Thing': Informal Childcare for Working Parents in Urban Britain. *Journal of Social Policy*, 31(3), 441-463.

angen cymorth ychwanegol yn gallu cael budd o'r Cynnig yn yr un ffordd â phlant eraill;

- **Erthygl 26** sy'n datgan y dylai'r Llywodraeth ddarparu arian ychwanegol ar gyfer plant i deuluoedd mewn angen. Roedd cyflog canolrifol rhieni unigol a oedd yn cael mynediad at y Cynnig yn ystod y cyfnod gweithredu cynnar yn llai na £25,999⁷ ac roedd 66% o'r rhieni a oedd yn cael mynediad at y Cynnig yn ennill cyflog a oedd yn gyfwerth â'r cyflog canolrifol ar gyfer Cymru neu lai na hynny⁸. Trwy ddarparu cyllid i helpu i dalu costau gofal plant, bydd y Cynnig yn galluogi rhai rhieni i ystyried gweithio mwy o oriau neu fe allai agor y drws i ddewisiadau gyrfa sy'n wahanol ac yn talu'n well;
- **Erthygl 27** sy'n datgan bod gan blant hawl i safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol ac y dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd nad ydynt yn gallu fforddio darparu hyn. Trwy gynyddu incwm gwario teuluoedd, mae'r Cynnig yn helpu i gyfrannu at safon byw well i blant mewn teuluoedd cymwys. Roedd y gwerthusiad o gyflwyno'r cynllun peilot yn awgrymu bod y Cynnig wedi cael effaith ar incwm gwario aelwydydd a gafodd fynediad at y Cynnig, gyda'r mwyafrif o rieni a arolygwyd (86%) yn dweud bod ganddynt fwy o arian o ganlyniad i'r Cynnig⁹;
- **Erthygl 30** sy'n datgan bod gan blant hawl i ddysgu a defnyddio iaith a defodau eu teuluoedd, ni waeth pa un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan y mwyafrif o bobl yn y wlad ai peidio. Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, trwy ei strategaeth *Cymraeg 2050*, yw cynyddu niferoedd y bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r asesiad o'r effaith ar y Gymraeg yn darparu rhagor o fanylion am gyfraniad y Cynnig yn hyn o beth.

⁷ Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru tudalen 93

⁸ Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: Blwyddyn 2 tudalen 67

⁹ Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: Blwyddyn 2 tudalen 79